



**Atebolrwydd am Ddyfarnu:
Newidiadau i'n Amodau Cydnabod Safonol ac
Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer
Cymwysterau TGAU / TAG**

Cynnwys

1	Cyflwyniad.....	3
2	Cefndir.....	3
3	Crynodeb o'r Cynigion a'r Penderfyniadau.....	4
4	Aseiad Effaith	5
	Opsiwn 1: Gwneud dim	5
	Opsiwn 2: Adlewyrchu holl newidiadau Ofqual.....	6
	Opsiwn 3: Adlewyrchu newidiadau Ofqual cymaint ag sy'n rhesymol bosibl, a sicrhau cysondeb â'n fframwaith a'n dull rheoleiddio.....	6
5	Camau Nesaf	7
	Atodiad 1: Newidiadau i Amodau Cydnabod Safonol Cymwysterau Cymru	8
	Atodiad 2: Newidiadau i Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer TGAU / TAG Cymwysterau Cymru	12

1 Cyflwyniad

- 1.1 Rydym yn nodi yn y ddogfen hon y newidiadau y byddwn yn eu gwneud i'n Amodau Cydnabod Safonol o ganlyniad i'r gwaith diweddar a wnaed ar y rheolaethau sydd gan gyrff dyfarnu ar waith dros ddyfarniadau asesu canolfannau.
- 1.2 Crynhoir y newidiadau hyn fel a ganlyn:
- ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu roi trefniadau ar waith i graffu ar safonau dyfarniadau asesu a wneir gan ganolfannau sy'n cynnig eu cymwysterau;
 - ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu egluro eu dull mewn dogfen strategaeth (strategaeth Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau);
 - dileu'r holl ofynion mewn perthynas â Chymedroli o'n Amodau Cydnabod Safonol, a'u rhoi yn ein Amodau Cymhwyster-benodol ar gyfer cymwysterau TGAU a TAG.
- 1.3 Bydd yr Amodau newydd hyn yn dod i rym o 00:01 ar 13 Chwefror 2020. Yn dilyn eu cyhoeddi, rydym yn disgwyl i gyrff dyfarnu gydymffurfio'n llawn erbyn Medi 2021. Bydd y newidiadau rydym yn eu gwneud i'r Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer TGAU / TAG yn dod i rym yn syth.

2 Cefndir

- 2.1 Rhwng 19 Medi a 14 Tachwedd 2019, ymgynghorodd Ofqual ar sut y byddent yn rheoleiddio'r modd y mae gyrff dyfarnu lle mae canolfannau'n gwneud dyfarniadau asesu ar eu rhan.
- 2.2 Roedd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys cynigion a ddyluniwyd i sicrhau bod gyrff dyfarnu yn cadw rheolaeth ddigonol dros safonau eu cymwysterau, lle mae canolfannau'n gwneud dyfarniadau asesu ar eu rhan.
- 2.3 Yn gyson â'r dull a gymerwyd yn ein hymgyngoriad [tair gwlad diweddar ar Newidiadau i Amodau Cydnabod](#), cytunwyd i weithio gyda'n gilydd, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, gan alinio ein hamodau, gyda'r nod o hybu buddiannau dysgwyr a hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a reoleiddir a lleihau'r baich ar gyrff dyfarnu. I'r perwyl hwnnw, rydym wedi bod mewn deialog barhaus gyda'n cyd-reoleiddiwr, gan drafod canfyddiadau eu hadolygiad, eu newidiadau arfaethedig i Amodau, gofynion a chanllawiau, a'r adborth a gafwyd gan gyrff dyfarnu.
- 2.4 Ar 22 Tachwedd 2019, rhoddodd Ofqual Hysbysiad o dan Amod B4 i sampl o gyrff dyfarnu cydnabyddedig sy'n cynrychioli croestoriad o'r rhai y maent yn eu rheoleiddio o ran eu maint, y cymwysterau y maent yn eu cynnig a nifer y canolfannau y maent yn gweithio gyda nhw. Roedd yr hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

- manylion gweithgaredd craffu (beth sy'n rhan o bob un o'r prif weithgareddau craffu);
- costau gweithgaredd craffu (amcangyfrif dadansoddol o'r costau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau craffu ac, os yn bosibl, yr agweddau cysylltiedig);
- dulliau sy'n seiliedig ar risg (y ffactorau a ystyrir wrth bennu lefel risg canolfan);
- craffu ar sail risg (amcangyfrif o ddwystr y gweithgareddau craffu a gymhwysir fel arfer i ganolfannau sydd â risg Uchel, Canolig ac Isel), a
- ffactorau ychwanegol (ffactorau ychwanegol a allai ddylanwadu ar ddwystr gweithgaredd craffu a sgôr risg canolfan).

- 2.5 Fe wnaethom hefyd fynychu Digwyddiad Rhanddeiliaid a gynhaliwyd gan Ofqual cyn yr ymgynghoriad technegol a roddodd gyfle inni glywed barn sampl o gyrff dyfarnu cydnabyddedig.
- 2.6 Yn eu cais am wybodaeth gan gyrff dyfarnu, nododd Ofqual y gallant rannu gwybodaeth ag asiantaethau neu awdurdodau eraill, gan gynnwys cyd-reoleiddwyr, lle bo hynny'n briodol. Roedd hyn nid yn unig yn osgoi'r angen i ni gasglu data tebyg at ddibenion asesiad effaith, ond hefyd yn cefnogi ein penderfyniadau ein hunain yn y maes hwn.

3 Crynodeb o'r Cynigion a'r Penderfyniadau

- 3.1 Byddwn yn diwygio ein Amod H2, gan ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu gael strategaeth Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau. Rhaid i'r strategaeth hon nodi dull(iau) corff dyfarnu ar sut y byddant yn monitro canolfannau er mwyn sicrhau atebolrwydd am ddyfarniadau.
- 3.2 Byddwn hefyd yn gwneud yr ychwanegiadau a'r diwygiadau canlynol i'r Amodau Cydnabod Safonol, sydd yn cyd-fynd â'r rhai a gyflwynwyd gan Ofqual:
- Amod A4.6 - Gwrthdaro Buddiannau (diwygio);
 - Amod C2.3 - Trefniadau gyda Chanolfannau (diwygio);
 - Amod H6.1 (d) - Cyhoeddi canlyniadau (diwygio);
 - Amod H6.3 – Cywiro canlyniadau (newydd);
 - Amod I4.2 (c) - Cyhoeddi canlyniadau a thystysgrifau amnewid (diwygio); a
 - Amod J1.8 - Diffiniadau
 - Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau (newydd), a
 - Cymedroli (diwygiedig).
- 3.3 Fodd bynnag, ni fyddwn yn cyflwyno'r Amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob corff dyfarnu gyflawni Cymedroli ar gyfer cymwysterau penodol a gyhoeddir ar restr. Mae hyn oherwydd bod ein Fframwaith Rheoleiddio eisoes yn ein galluogi i fynnu Cymedroli, lle rydym o'r farn ei fod yn briodol, trwy fecanweithiau sydd ar gael inni trwy Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015. Er enghraifft, Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer cymwysterau Cymeradwy newydd sydd wedi'u dylunio'n benodol i ddiwallu anghenion dysgwyr yng

Nghymru, ac Amodau sy'n benodol i gymwysterau fel yr Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer Cymwysterau TGAU / TAG ("Amodau TGAU / TAG") sy'n cynnwys gofynion o ran marcio, cymedroli ac apelio.

- 3.4 Byddwn hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i'n Amodau i adlewyrchu cyflwyno CASS. Mae'r rhain yn cynnwys dileu gofynion sy'n ymwneud yn benodol â Chymedroli o'n Amodau Cydnabod Safonol, a'u rhoi yn ein Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer Cymwysterau TGAU / TAG (Amod B - Trefniadau cymedroli.).
- 3.5 Ni fyddwn yn cyflwyno'r gofynion sylfaenol a'r canllawiau sydd wedi'u cyhoeddi gan Ofqual, ond byddwn yn ystyried pa waith pellach a allai fod yn angenrheidiol yn y dyfodol.
- 3.6 Gellir gweld y diwygiadau i'r [Amodau Cydnabod Safonol](#) a'r [Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer Cymwysterau TGAU / TAG](#) yn Atodiadau 1 a 2 o'r ddogfen benderfyniadau hon.

4 Asesiad Effaith

- 4.1 Fel corff cyhoeddus, mae'n ofynnol i ni asesu effaith debygol, cadarnhaol a negyddol, y penderfyniadau rheoleiddiol a gymerwn. Fel rhan o'r asesiad hwn, mae'n rhaid i ni ystyried ystod o opsiynau, gan gynnwys asesiad o beidio â chymryd unrhyw gamau rheoleiddio ("gwneud dim").
- 4.2 Mae'r adran ganlynol hon yn nodi'r opsiynau sydd wedi'u hasesu wrth ystyried a ddylem wneud unrhyw newidiadau i'n Hamodau ai peidio. Amlinellir yr opsiynau hyn isod.
 - Opsiwn 1: Gwneud dim - mae hyn yn golygu cadw ein gofynion rheoleiddiol presennol fel y nodir yn ein Amodau Cydnabod Safonol cyhoeddedig.
 - Opsiwn 2: Adlewyrchu holl newidiadau Ofqual
 - Opsiwn 3 (yr opsiwn a ffeirir): Adlewyrchu newidiadau Ofqual cymaint ag sy'n rhesymol bosibl, a sicrhau cysondeb â Fframwaith a Dull Rheoleiddio Cymwysterau Cymru.

Rydym wedi ystyried effeithiau tebygol, cadarnhaol a negyddol, yr opsiynau hyn.

Opsiwn 1: Gwneud dim

- 4.2 Byddai'r opsiwn o wneud
- 4.3 dim yn golygu y byddai ein dull o sicrhau bod cyrff dyfarnu yn cadw rheolaeth ddigonol dros safonau eu cymwysterau, lle mae canolfannau'n gwneud dyfarniadau asesu ar eu rhan, yn aros yr un fath. Felly, ni fyddai unrhyw newidiadau i'r gofynion yn cael eu cyflwyno a byddai'r trefniadau rheoleiddio presennol yng Nghymru yn parhau.
- 4.4 Ni fyddai 'gwneud dim' yn mynd i'r afael â'r dystiolaeth gymhellol a gynhyrchwyd gan Ofqual fel rhan o'i raglen waith 'atebolrwydd am ddyfarniadau', nac yn ein galluogi ni fel y

rheoleiddiwr yng Nghymru i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu hamddiffyn a bod hyder y cyhoedd yn system gymwysterau Cymru yn cael ei chynnal a'i hybu.

- 4.5 Credwn y byddai dull o 'wneud dim' yn debygol o arwain at effaith negyddol ar gyrff dyfarnu cydnabyddedig yng Nghymru, gan fod pawb (97) hefyd yn cael eu rheoleiddio gan Ofqual yn Lloegr ac felly byddai'n ofynnol iddynt gynhyrchu CASS at ddibenion datblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau yn Lloegr. Felly, byddai cael dau ddull gwahanol yn hyn o beth yn fwy tebygol o arwain at lwyth gwaith cynyddol ar gyfer cyrff dyfarnu.
- 4.6 O ganlyniad i gynnal yr asesiad effaith hwn, rydym yn fodlon nad yw gwneud unrhyw newidiadau i'n gofynion cyfredol yn opsiwn ymarferol.

Opsiwn 2: Adlewyrchu holl newidiadau Ofqual

- 4.7 Byddai adlewyrchu'r holl newidiadau a wnaed gan Ofqual i'w Amodau Cydnabod Cyffredinol yn sicrhau bod y gwahaniaethau cyfyngedig sy'n bodoli rhwng Amodau pob rheoleiddiwr yn aros ar y lefel gyfredol. Gallai hyn olygu bod adrodd ar gydymffurfio ag Amodau yn fwy safonol ar draws pob rheoleiddiwr.
- 4.8 Fodd bynnag, ni fyddai adlewyrchu holl newidiadau Ofqual i'n Hamodau yn unol â'n fframwaith ddeddfwriaethol a rheoleiddiol, yn benodol y mecanweithiau a ddefnyddiwn i nodi gofynion penodol ar gyfer cymwysterau e.e. datblygu Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer cymwysterau newydd sydd wedi'u dylunio'n benodol i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru.
- 4.9 Felly, ni fyddai adlewyrchu'r holl newidiadau sy'n cael eu gwneud gan Ofqual yn eu rheolau a'u canllawiau yn opsiwn priodol i'w cymryd yn ein cyd-destun.

Opsiwn 3: Adlewyrchu newidiadau Ofqual cymaint ag sy'n rhesymol bosibl, a sicrhau cysondeb â'n fframwaith a'n dull rheoleiddio

- 4.10 Wrth alinio â mwyafrif y newidiadau i Amodau, gan gynnwys y rhai sy'n gosod gofyniad i gorff dyfarnu gynnal CASS, ni fydd yn ofynnol i gyrff dyfarnu ddefnyddio dull gwahanol wrth roi rheolaethau ar waith ar gyfer safonau eu cymwysterau, lle mae canolfannau'n gwneud dyfarniadau asesu ar eu rhan.
- 4.11 Credwn y bydd defnyddio'r dull hwn yn arwain at yr effeithlonrwydd gorau posibl ar gyfer cyrff dyfarnu, gan y byddant yn gallu cynhyrchu dull CASS cyffredin sy'n adlewyrchu'r cymwysterau y mae'n eu cynnig, a'r canolfannau y mae'n gweithio gyda hwy ar draws gwahanol awdurdodaethau.
- 4.12 Er ein bod yn credu mai dyma'r dull gorau posibl, rydym yn cydnabod y bydd cost i gyrff dyfarnu o gynhyrchu strategaeth CASS, a chost sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau craffu a wneir fel rhan o CASS. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, bod cyrff dyfarnu eisoes yn

ymgymryd â nifer o weithgareddau craffu gyda chanolfannau, ac felly, ni fyddai'r rhain o reidrwydd yn gostau newydd. Yn yr un modd, ymgymerir â'r gweithgareddau hyn ar draws awdurdodaethau ac felly ni ddylid cyfrif am y costau ddwywaith o reidrwydd.

- 4.13 Yn seiliedig ar y data a gasglwyd gan Ofqual gan gyrff dyfarnu, mae'r costau amcangyfrifedig ar gyfer gweithgareddau craffu fel a ganlyn:

Gweithgaredd Craffu	Cost	Amser
Ymweliad wyneb yn wyneb	Rhwng £200-£610	Rhwng 1 a 1.75 diwrnod
Samplu o Bell	Rhwng £96-£385	Rhwng 0.4 a 1.5 diwrnod
Cynadledda Fideo	Rhwng £50-£250	Rhwng 0.3 ac 1 diwrnod
Gweithgareddau mewnol corf dyfarnu	Rhwng £86-£147	Rhwng ½ ac 1 diwrnod

- 4.14 I grynhoi, credwn fod buddion cyflwyno'r newidiadau hyn, sy'n cynnwys cryfhau'r craffu a'r rheolaethau sydd gan gyrff dyfarnu ar waith dros ddyfarniadau asesu canolfannau, a thrwy hynny amddiffyn dysgwyr a chynnal hyder y cyhoedd yn y system gymwysterau, yn cyfiawnhau'r costau fel yr amlinellwyd uchod.

5 Camau Nesaf

- 5.1 Bydd y newidiadau i'n Amodau Cydnabod Safonol diwygiedig, ac Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer cymwysterau TGAU / TAG, fel yr amlinellwyd uchod, yn dod i rym o 00:01 ar 13 Chwefror 2020, ac maent i'w gweld ar ein gwefan.
- 5.2 Mae'r tri rheoleiddiwr yn disgwyl i gyrff dyfarnu sicrhau eu bod yn cael eu cwrdd, yn llawn, erbyn Medi 2021 fan bellaf. Er mai Medi 2021 fydd y dyddiad diweddaraf erbyn pryd y mae'n rhaid eu bodloni'n llawn, byddem yn disgwyl i gorff dyfarnu allu dangos ei gynnydd tuag at ei weithredu'n llawn cyn hyn. Yn benodol, os bydd digwyddiad yn digwydd sy'n cwestiynu rheolaethau corff dyfarnu gyda'i ganolfannau, byddem yn ceisio deall ei ddull o sicrhau cydymffurfiaid llawn â'n Amodau.
- 5.4 Er mwyn caniatáu i drefniadau Cymedroli effeithiol barhau wrth ddarparu cymwysterau TGAU a TAG, bydd y newidiadau a wneir i'n Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer Cymwysterau TGAU / TAG yn dod i rym, a disgwylir i gyrff dyfarnu gydymffurfio'n llawn o ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn (12 Chwefror 2020).

Atodiad 1: Newidiadau i Amodau Cydnabod Safonol Cymwysterau Cymru

Amod A4 – Gwrthdaro buddiannau

[...]

A4.6 Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau na chaiff unrhyw ran o'r asesiad Dysgwr (gan gynnwys drwy gyfrwng gwaith Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau) ei wneud gan unrhyw berson sydd â buddiant personol yng nghanlyniad yr asesiad.

Amod C2 – Trefniadau gyda Chanolfannau

C2.3

[...]

(j) nodi unrhyw drefniadau mewn perthynas â Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau y bydd y corff dyfarnu yn ymgymryd ag ef, neu a fydd yn cael ei ymgymryd ar ei ran, ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ganolfan gadw unrhyw ddata (gan gynnwys tystiolaeth a gynhyrchir gan Ddysgwyr ac a farciwyd gan y Ganolfan) y mae'r corff dyfarnu yn ystyried yn angenrheidiol er mwyn caniatáu iddo ymgymryd â'r craffu hwnnw'n effeithiol,

Amod H2 - Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau lle mae asesiad yn cael ei farcio gan Ganolfan

H2.1 Pan fydd tystiolaeth a gynhyrchwyd gan Ddysgwr mewn asesiad ar gyfer cymhwyster sydd ar gael gan gorff dyfarnu yn cael ei farcio gan Ganolfan, rhaid bod gan y corff dyfarnu drefniadau clir ac effeithiol ar waith i ymgymryd â gwaith Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau mewn perthynas â'r asesiad.

H2.2 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau, mewn perthynas ag unrhyw waith Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau y mae'n ymgymryd ag ef, ei fod yn cydymffurfio ag –

(a) unrhyw ofynion, ac yn dilyn unrhyw ganllawiau, a allai gael eu cyhoeddi gan Cymwysterau Cymru, a

(b) unrhyw ofynion y mae Cymwysterau Cymru wedi'u cyfleu iddo'n ysgrifenedig.

H2.3 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau, drwy unrhyw waith Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau y mae'n ymgymryd ag ef, ei fod yn cymryd pob cam rhesymol yn effeithiol i benderfynu p'un a yw –

(a) yr asesiad yn dal i fod yn addas i'r diben, a

- (b) a yw'r meini prawf a ddefnyddir i wahaniaethu perfformiad Dysgwyr yn cael eu cymhwyso'n gywir ac yn gyson gan Aseswyr mewn gwahanol Ganolfannau, ni waeth pwy yw'r Aseswr, y Dysgwr neu'r Ganolfan.

H2.4 Rhaid i gorff dyfarnu –

- (d) sicrhau bod unrhyw waith Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau y mae'n ei wneud yn sicrhau ei fod yn gallu gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r gwaith marcio y mae Canolfan yn ei wneud ar dystiolaeth a gynhyrchir gan Ddysgwr mewn asesiad, a

- (d) gwneud newid o'r fath lle bynnag y mae'n ystyried bod angen hynny er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn parhau i fod yn addas i'r diben neu fod y meini prawf a ddefnyddir i wahaniaethu perfformiad Dysgwyr yn cael eu cymhwyso'n gywir ac yn gyson.

Strategaeth Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau

H2.5 O ran pob cymhwyster y mae'n ei ddarparu, neu'n bwriadu ei ddarparu, pan fo tystiolaeth a gynhyrchir gan Ddysgwr yn cael ei marcio gan Ganolfan, rhaid i gorff dyfarnu –

- (a) sefydlu a chynnal strategaeth Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau ar gyfer y cymhwyster hwnnw,
- (b) sicrhau bod ei strategaeth yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion a allai gael eu cyhoeddi gan Cymwysterau Cymru, a
- (c) dilyn unrhyw ganllawiau mewn perthynas â strategaethau Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau a allai gael eu cyhoeddi gan Cymwysterau Cymru.

H2.6 Yn benodol, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod y strategaeth ar gyfer Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau ar gyfer cymhwyster yn nodi sut y mae'r corff dyfarnu yn bwriadu sicrhau, ar sail barhaus, bod cydymffurfiaid ag amodau H2.6 i H2.9 mewn perthynas â'r asesiadau ar gyfer y cymhwyster hwnnw.

H2.7 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod yr holl waith Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau y mae'n ei wneud yn cydymffurfio â'i strategaeth a sefydlwyd o dan yr Amod hwn.

H2.8 Rhaid i gorff dyfarnu –

- (a) barhau i adolygu ei strategaeth Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau, a'i diwygio lle bo angen, er mwyn ei bodloni ei hun bod y strategaeth yn bodloni gofynion amodau H2.6 a H2.7 bob amser,
- (b) pan ofynnir iddo wneud felly gan Cymwysterau Cymru yn ysgrifenedig, cyflwyno'r strategaeth honno yn brydlon i Cymwysterau Cymru, ac

- (c) adolygu'r strategaeth honno'n brydlon ar ôl cael cais gan Cymwysterau Cymru i wneud hynny, ac wedyn sicrhau bod ei strategaeth yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion y mae Cymwysterau Cymru wedi'u cyfleu iddo'n ysgrifenedig.

H2.9 Rhaid i gorff dyfarnu –

- (a) ar ôl cael cais gan Cymwysterau Cymru i wneud hynny, dangos i foddhad Cymwysterau Cymru ei fod wedi cydymffurfio â'i strategaeth Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau mewn perthynas ag unrhyw asesiad penodol, neu roi esboniad i Cymwysterau Cymru ynghylch pam nad yw wedi cydymffurfio felly, a
- (b) gweithredu unrhyw argymhelliad y gallai Cymwysterau Cymru ei wneud mewn perthynas â chydymffurfio â'i strategaeth Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau.

Amod H6 – Cyhoeddi'r canlyniadau

H6.1 Rhaid i gorff dyfarnu, mewn perthynas ag unrhyw gymhwyster y mae'n ei ddarparu:

[...]

- (d) gyhoeddi canlyniadau sy'n adlewyrchu gwaith marcio asesiadau yn gywir ac yn llwyr (gan gynnwys canlyniad unrhyw waith Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau ac unrhyw broses sicrhau ansawdd arall),

H6.2 [...]

Cywiro Canlyniadau

H6.3 Pan fydd corff dyfarnu'n darganfod bod unrhyw ganlyniad a gyhoeddodd yn anghywir, rhaid iddo –

- (a) gywiro'r canlyniad hwnnw lle darganfyddir y gwall trwy ymgymryd â phroses apelio,
- (b) ym mhob achos arall –
 - (i) ystyried a yw'n briodol cywiro'r canlyniad hwnnw, gan ddilyn unrhyw ganllawiau ar wneud newidiadau i ganlyniadau anghywir sydd wedi'u cyhoeddi gan Cymwysterau Cymru, a
 - (ii) cywiro'r canlyniad hwnnw os yw'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

Amod I4 – Cyhoeddi tystysgrifau a thystysgrifau amnewid

[...]

I4.2 Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol, gan gynnwys rhoi gweithdrefnau ar waith, er mwyn sicrhau:

[...]

- (c) yn dirymu unrhyw dystysgrif os yw'r canlyniad ar y dystysgrif yn annilys oherwydd camymddwyn, camweinyddu, neu oherwydd bod y canlyniad wedi'i gywiro o dan Amod H6.3.

Amod J1.8 - Diffiniadau

Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau

Y broses y mae corff dyfarnu yn ei defnyddio er mwyn -

- (a) craffu'n gyfnodol ar waith marcio asesiadau gan Ganolfan i sicrhau nad yw wedi gwro oddi wrth y safonau gofynnol,
- (b) ystyried a yw'n briodol cywiro unrhyw farc ac, os yw'n briodol, cywiro'r marc hwnnw (gan gynnwys ble mae angen newidiadau o dan Amod H2.4 (b)),
- (c) yn unol ag Amod H6.3(b), ystyried a yw'n briodol cywiro unrhyw ganlyniad anghywir ac, os yw'n briodol, cywiro'r canlyniad hwnnw, a
- (d) cymryd camau i atal gwriad o'r fath rhag digwydd eto.

Cymedroli

Ffurf benodol ar waith Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau lle mae'r gwaith o farcio asesiadau gan Ganolfannau yn cael ei fonitro i wneud yn siŵr ei fod yn bodloni'r safonau gofynnol a lle y gwneir addasiadau i waith marcio Canolfan, lle bo angen, i sicrhau bod canlyniadau yn seiliedig ar y safon ofynnol.

Mae'r gwaith cymedroli'n digwydd cyn cyhoeddi'r canlyniadau terfynol o dan Amod H6.1.

Atodiad 2: Newidiadau i Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer TGAU / TAG Cymwysterau Cymru

Amod Safonol Ychwanegol B – Trefniadau Cymedroli

- ASC.B1** Pan fydd tystiolaeth a gynhrychir gan Ddysgwr mewn asesiad ar gyfer cymhwyster a ddarperir gan gorff dyfarnu yn cael ei farcio gan Ganolfan, rhaid bod gan y corff dyfarnu drefniadau clir ac effeithiol ar waith i ymgymryd â gwaith Cymedroli mewn perthynas â'r asesiad.
- ASC.B2** Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod unrhyw waith Cymedroli o'r fath y mae'n ei wneud yn ei alluogi i benderfynu'n effeithiol a yw:
- (a) yr asesiad yn dal i fod yn addas i'r diben, ac
 - (b) a yw'r meini prawf a ddefnyddir i wahaniaethu perfformiad Dysgwyr yn cael eu cymhwyso'n gywir ac yn gyson gan Aseswyr mewn gwahanol Ganolfannau, ni waeth pwy yw'r Aseswr, y Dysgwr neu'r Ganolfan.
- ASC.B3** Rhaid i gorff dyfarnu:
- (a) sicrhau bod unrhyw waith Cymedroli o'r fath y mae'n ei wneud yn sicrhau ei fod yn gallu gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r gwaith marcio y mae Canolfan yn ei wneud ar dystiolaeth a gynhrychir gan Ddysgwr mewn asesiad, a
 - (b) gwneud newid o'r fath lle bynnag y mae'n ystyried bod angen hynny er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn parhau i fod yn addas i'r diben neu fod y meini prawf a ddefnyddir i wahaniaethu perfformiad Dysgwyr yn cael eu cymhwyso'n gywir ac yn gyson.
- ASC.B4** Mewn perthynas â phob cymhwyster TGAU / TAG sy'n cynnwys gwaith Cymedroli y mae'n ei ddarparu, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod y trefniadau sydd wedi'u sefydlu yn unol ag Amod Safonol H2.1 yn golygu –
- (a) y bydd yr holl waith Cymedroli'n cael ei wneud gan bersonau sydd â lefel briodol o gymhwysedd ac nad oes ganddynt unrhyw fuddiant personol yng nghanlyniad y gwaith Cymedroli,
 - (b) bod person a fu gynt yn ymwneud â gwaith marcio Canolfan ar asesiad ddim yn ymwneud â gwaith Cymedroli mewn perthynas â'r gwaith marcio hwnnw,

- (c) cyn cyflawni unrhyw waith Cymedroli, bydd pob person sydd â'r dasg o wneud y gwaith Cymedroli hwnnw'n cael hyfforddiant,
- (d) cyn cyflawni unrhyw waith Cymedroli, bydd person sydd â'r dasg o wneud y gwaith Cymedroli hwnnw'n cael copi o -
 - i) unrhyw dystiolaeth a gynhyrchwyd gan Ddysgwyr sydd i'w hystyried at ddibenion gwaith Cymedroli neu, lle nad yw dystiolaeth o'r fath yn cael ei chadw neu nad oes modd ei chopio'n hawdd, cynrychioliad o'r dystiolaeth mewn ffurf arall,
 - ii) y cofnod o'r dyfarniad marciau a wnaed gan Aseswyr pan farciwyd y dystiolaeth honno,
 - iii) unrhyw sylwadau a gofnodwyd gan Aseswyr wrth farcio'r dystiolaeth honno, a
 - iv) y meini prawf y caiff perfformiad Dysgwyr eu gwahaniaethu yn eu herbyn,
- (e) rhaid i'r corff dyfarnu fonitro p'un a yw'r personau sy'n cyflawni'r gwaith Cymedroli yn -
 - i) gwneud hynny mewn modd sy'n cydymffurfio ag Amod Safonol H2, ac yn
 - ii) gwneud dyfarniadau sy'n gyson dros amser ac sy'n gyson â dyfarniadau a wneir gan ei gilydd,
- (f) os yw'r corff dyfarnu'n darganfod, drwy ei waith monitro neu fel arall, nad yw'r gwaith Cymedroli wedi'i gyflawni mewn modd sy'n cydymffurfio ag Amod Safonol H2, neu wedi'i wneud yn anghyson, bydd yn cymryd pob cam rhesymol i -
 - i) gywiro, neu lle na ellir ei gywiro, liniaru effaith y methiant cyn belled ag y bo modd, a
 - ii) sicrhau nad yw'r methiant yn digwydd eto.

ASC.B5

Mewn perthynas â phob cymhwyster TGAU / TAG sy'n cynnwys gwaith Cymedroli y mae'n ei ddarparu, mae'n rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod y gwaith monitro a wneir yn unol ag Amod Safonol C1.1 (b) yn cynnwys monitro a yw personau sy'n cyflawni gwaith Cymedroli yn gwneud hynny mewn modd sy'n cydymffurfio ag Amodau Cydnabod y corff dyfarnu.